# Canllawiau i reolyddion: asesu perfformiad yn erbyn Safon 3

## Cyflwyniad

Nod y canllawiau hyn yw nodi ein dull newydd o asesu perfformiad rheolyddion yn erbyn Safon 3 o'n Safonau Rheoleiddio Da, sy'n dod i rym o flwyddyn adolygu perfformiad 2023/24. Mae'n cyd-fynd â matrics tystiolaeth newydd sy'n rhannu'r Safon yn bedwar maes canlyniad, sy'n gosod dangosyddion perfformiad manylach. Nid yw geiriad Safon 3 wedi newid, sef:

| |
|---|
| Mae'r rheoleiddiwr yn deall amrywiaeth ei unigolion cofrestredig a'u cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac eraill sy'n rhyngweithio â'r rheoleiddiwr ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchodedig. |

## Cefndir

Yng Nghynllun Gweithredu EDI yr Awdurdod, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, gwnaethom ymrwymo i adolygu'r ffordd y gwnaethom asesu perfformiad rheolyddion yn erbyn Safon 3.[1] Gwnaethom archwilio a oedd angen i ni godi ein disgwyliadau ar gyfer bodloni'r Safon hon, a oedd wedi'i gosod ar far cymharol isel pan gafodd ei chyflwyno yn 2019. Gwnaethom hefyd ystyried sut y gallem wneud ein hasesiadau yn fwy tryloyw a chyson, gan adeiladu ar y gwelliannau a wnaethom i'n prosesau pan wnaethom gyflwyno ein dull newydd o adolygu perfformiad o 2021/22.[2]

Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed gan reolyddion ar y materion hyn dros y blynyddoedd diwethaf ac yn cydnabod y gwaith caled a'r ymrwymiad sydd wrth wraidd y gwelliant hwnnw. Rydym yn falch bod yr holl reolyddion, am y tro cyntaf, wedi bodloni Safon 3 yng nghylch adolygu perfformiad 2021/22. Ond gwyddom hefyd fod llawer mwy i'w wneud i fynd i'r afael ag annhegwch a hybu tegwch. Ein bwriad yw cefnogi rheolyddion i wneud gwelliannau pellach, ac rydym nawr yn nodi'n fanylach y canlyniadau y disgwyliwn i reolyddion eu cyflawni.

## Y matrics tystiolaeth

Pan wnaethom gynnal ein hadolygiad mawr diwethaf o'r Safonau Rheoleiddio Da, cyhoeddwyd fframwaith tystiolaeth gennym yn cwmpasu'r holl Safonau.[3] Mae hwn yn rhoi enghreifftiau o dystiolaeth y gallem ei hystyried fel rhan o'n hasesiadau, ac yn nodi y byddai perthnasedd tystiolaeth wahanol yn amrywio rhwng rheolyddion oherwydd eu bod yn gweithredu mewn cyd-destunau gwahanol.

Dywedodd rheolyddion wrthym, fodd bynnag, eu bod yn ei chael yn anodd deall beth oeddem yn ei ddisgwyl yn erbyn Safon 3, ac y byddent yn croesawu mwy o ganllawiau ar y trothwy ar gyfer ei chyrraedd. Mae'r matrics tystiolaeth newydd yn ddarlun mwy cynhwysfawr o'r hyn a fyddai'n dangos perfformiad da yn erbyn y Safon, wedi'i grwpio o dan bedwar datganiad canlyniad.

1 Cynllun Gweithredu EDI yr Awdurdod

2 Y broses o adolygu perfformiad

3 Fframwaith tystiolaeth

Oherwydd ein bod wedi darparu mwy o fanylion am y dystiolaeth y byddem am ei gweld, ac oherwydd ein bod wedi codi ein disgwyliadau o ran yr hyn y dylai rheolyddion ei gyflawni, mae’r matrics newydd yn edrych yn wahanol iawn i’r fersiwn flaenorol. Yn ymarferol, nid oes llawer yn y matrics nad yw'r rhan fwyaf o reolyddion yn ei wneud eisoes (neu'n bwriadu ei wneud), neu nad ydym eisoes yn ei ystyried yn ein hasesiadau.

Rydym wedi rhannu'r Safon yn bedair elfen ar wahân, ac mae gan bob un ohonynt ei datganiad canlyniad ei hun. Er mwyn i ni ddod i'r casgliad bod rheoleiddiwr wedi cyrraedd y Safon, byddai angen i ni fod yn sicr bod y rheoleiddiwr wedi cyflawni pob un o'r pedwar canlyniad. Er mwyn gwneud yr asesiad hwnnw, byddem yn edrych ar berfformiad y rheoleiddiwr yn erbyn pob dangosydd o dan bob canlyniad; mae tystiolaeth gyfyngedig o gynnydd yn erbyn un dangosydd yn gyffredinol yn annhebygol o arwain at reoleiddiwr yn methu â chyrraedd y Safon. Yn yr un modd, efallai y bydd rheolyddion yn gallu darparu tystiolaeth berthnasol arall nad ydym wedi ei rhestru yn y matrics, ond sy'n helpu dangos eu bod yn cyflawni'r canlyniadau.

Rydym wedi drafftio’r canlyniadau a’r dangosyddion mewn ffordd sy’n rhoi hyblygrwydd i reolyddion o ran sut i’w cyflawni. Gwyddom fod amgylchiadau rheolyddion yn amrywio, ac mai rheolyddion sydd yn y sefyllfa orau i flaenoriaethu eu gwaith a gwneud penderfyniadau gweithredol.

**Canlyniad 1: Mae gan y rheoleiddiwr drefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau priodol ar waith i ymgorffori EDI ar draws ei weithgareddau rheoleiddio.**

Fel y nododd ein hadroddiad, *Gofal Mwy Diogel i Bawb*, ‘Credwn y dylai rheolyddion a chofrestrau gydweithio i wella amrywiaeth paneli addasrwydd i ymarfer, penderfynwyr eraill ac uwch arweinwyr i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned yn agosach’. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i reolyddion gasglu data sy'n eu galluogi i asesu amrywiaeth y grwpiau hyn a defnyddio hynny i gymryd camau wedi'u targedu yn ôl yr angen. Rydym wedi gweld gwelliant sylweddol yn ansawdd y data EDI a gasglwyd gan reolyddion yn y blynyddoedd diwethaf, a ddylai roi digon o wybodaeth i reolyddion benderfynu drostynt eu hunain pa gamau, os o gwbl, sydd eu hangen. Rydym yn cydnabod nad oes rhaid i unigolion roi gwybodaeth i reolyddion am eu nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd yn cydnabod y gall newid gymryd amser, yn enwedig ar lefelau uwch lle gallai trosiant fod yn is, neu lle mae isafswm cyfnodau swydd ar waith ar Gynghorau/Byrddau.

Mae hefyd yn bwysig bod rheolyddion yn mabwysiadu ymagwedd strwythuredig at ymgorffori EDI ar draws eu swyddogaethau rheoleiddio. Mae cael cynllun clir, ac adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y cynllun hwnnw, yn arf pwysig nid yn unig o ran sicrhau bod gweithgareddau’n cael eu cyflawni, ond rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod rheolyddion yn ymroddedig ac yn barod i gymryd camau effeithiol yn y maes hwn. Rheolyddion unigol sydd i benderfynu sut i wneud hyn, ond gwyddom fod y rhan fwyaf eisoes yn cyhoeddi cynlluniau gweithredu neu strategaethau EDI aml-flwyddyn (mewn fformatau amrywiol) ac yn adrodd ar gynnydd o leiaf unwaith y flwyddyn mewn rhyw ffordd. Yn yr un modd, er y byddem yn gyffredinol yn disgwyl i reolyddion ddefnyddio Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs) i sicrhau nad yw eu polisïau a’u prosesau rheoleiddio yn rhoi grwpiau penodol o dan anfantais, efallai y bydd rheolyddion yn penderfynu defnyddio dulliau neu offer eraill i gyflawni’r un amcan. Rydym wedi ystyried y defnydd o Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein hasesiadau blaenorol o dan y Safon hon, a hoffem ddeall sut y sicrhaodd rheolyddion nad yw eu polisïau a’u prosesau rheoleiddio yn rhoi grwpiau penodol dan anfantais pe na baent yn defnyddio yr Asesiadau.

**Canlyniad 2: O ran EDI, mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau bod myfyrwyr ac unigolion cofrestredig yn gallu darparu gofal priodol i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth, a bod ganddynt wybodaeth a sgiliau EDI priodol.**

Mae digonedd o dystiolaeth o anghydraddoldebau parhaus o ran canlyniadau a phrofiadau iechyd a gofal, y mae rhywfaint ohonynt yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig. Rhaid i unigolion cofrestredig (a myfyrwyr lle bo'n berthnasol) fod wedi'u harfogi i ddarparu gofal sy'n briodol i anghenion cleifion unigol a defnyddwyr gwasanaeth. I wneud hyn mae'n rhaid iddynt fod yn ymwybodol o amrywiaeth y cleifion a'r defnyddwyr gwasanaeth hynny, a gallu addasu eu hymagwedd yn unol â hynny. Mae angen i reolyddion hefyd sicrhau eu hunain bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau hynny i fyfyrwyr ac unigolion cofrestredig – a'u bod yn gallu darparu addysg a hyfforddiant i fyfyrwyr ac unigolion cofrestredig o bob cefndir. O ran addasrwydd parhaus i ymarfer, dylai rheolyddion ddarparu arweiniad a chefnogaeth barhaus i unigolion cofrestredig ar faterion EDI. Gallai hyn fod ar amrywiaeth eang o ffurfiau, a gallai gynnwys fformatau fel cylchlythyrau, astudiaethau achos, blogiau a gweminarau. Efallai y bydd rheolyddion am ymgorffori hyn yn eu gofynion DPP neu ailddilysu, yn amodol ar ddeddfwriaeth berthnasol. Erbyn 2025/26, byddem yn disgwyl i reolyddion allu dangos bod myfyrwyr/unigolion cofrestredig mewn sefyllfa well i ddarparu gofal i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth – mater i reolyddion fydd penderfynu sut i flaenoriaethu eu gwaith, yn dibynnu ar eu sefyllfa bresennol a'r materion y maent yn eu nodi ar gyfer gweithredu.

**Canlyniad 3: O ran EDI, mae'r rheoleiddiwr yn gwneud penderfyniadau teg ar draws yr holl swyddogaethau rheoleiddio.**

Mae anghydraddoldebau hefyd yn parhau o fewn rheoleiddio gofal iechyd. Er enghraifft, fel y nodwyd yn *Gofal Mwy Diogel i Bawb*, mae tystiolaeth i awgrymu bod unigolion cofrestredig o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli mewn systemau addasrwydd i ymarfer. Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o annhegwch wrth wneud penderfyniadau, rhaid i reolyddion gael digon o ddata ar gyfer dadansoddiad cadarn ar lefel y boblogaeth ar gyfer pob cam o'u proses. Mae rheolyddion wedi gwneud cynnydd da o ran y data hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ganiatáu iddynt sefydlu gwaelodlinau y gallant eu defnyddio i nodi a blaenoriaethu materion ar gyfer gweithredu, a monitro cynnydd. Dylai rheolyddion gasglu data EDI yn ddigon aml i'w galluogi i fonitro ac adrodd ar effaith eu gweithgareddau. Mae angen i reolyddion ddarparu hyfforddiant priodol ar faterion EDI i helpu staff, panelwyr ac eraill i wneud penderfyniadau teg a diduedd – mater i reolyddion yw pennu cynnwys a fformat hyfforddiant o'r fath, a bydd yn dibynnu ar y materion penodol y mae pob un ohonynt yn nodi sydd fwyaf perthnasol iddynt. Mae hefyd yn bwysig bod rheolyddion yn ceisio gwella'r data EDI y maent yn ei gasglu gan y rhai sy'n codi pryderon addasrwydd i ymarfer – nid tasg hawdd, a mater a nodir yn *Gofal Mwy Diogel i Bawb* fel un sy'n effeithio ar bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn cymryd amser i ddangos canlyniadau, ond mae'n hanfodol i hyder y cyhoedd fod rheolyddion yn gallu dangos tegwch wrth wneud penderfyniadau.

**Canlyniad 4: Mae'r rheoleiddiwr yn ymgysylltu ag eraill ac yn dylanwadu arnynt i hyrwyddo materion EDI a lleihau canlyniadau gwahaniaethol annheg.**

Mae’r canlyniad hwn yn ymwneud â sut mae rheolyddion yn gweithio gydag eraill – o ran ceisio adborth, ymchwil a ffynonellau tystiolaeth eraill a gweithredu arnynt, ac o ran defnyddio eu safle a’u pwerau dylanwadu i ysgogi newid. Rydym yn cydnabod bod llawer o'r materion EDI sy'n wynebu rheolyddion yn gymhleth ac ni all rheolyddion eu datrys ar eu pen eu hunain. Mae'n bwysig bod rheolyddion yn gweithio'n adeiladol gydag ystod amrywiol o randdeiliaid i ddeall y problemau a nodi cynlluniau ymarferol i fynd i'r afael â nhw. Mae rhai materion, megis anghymesuredd annheg ar draws atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer neu gyrhaeddiad gwahaniaethol annheg mewn hyfforddiant, y tu allan i reolaeth uniongyrchol rheolyddion; fodd bynnag, dylai rheolyddion ddefnyddio'r dylanwad sydd ganddynt yn y sector a gweithio gyda sefydliadau eraill i ysgogi newid.

**Yr amserlenni ar gyfer gweithredu a gwerthuso**

Yn wahanol i’n dull o asesu perfformiad yn erbyn y Safonau eraill, yn y matrics tystiolaeth newydd ar gyfer Safon 3 rydym wedi gosod dangosyddion ar gyfer blynyddoedd penodol: mae hyn oherwydd ein bod yn fwriadol yn ceisio ysgogi gwelliannau yr ydym yn cydnabod y gall gymryd sawl blwyddyn i’w cyflawni. Yn ystod cyfnod adolygu 2023/24, rydym wedi nodi’r gweithgareddau craidd rydym yn disgwyl i reolyddion fod yn eu cyflawni a fydd yn eu galluogi i fynd ymlaen a chyflawni dangosyddion a chanlyniadau 2025/26. Nid ydym wedi gosod dangosyddion ar gyfer 2024/25 ond byddem yn disgwyl gweld cynnydd tuag at ddangosyddion 2025/26, yn seiliedig ar yr hyn y mae rheolyddion wedi ei gyflawni yn 2023/24.

Bydd ein hasesiad yn erbyn Safon 3 yn wahanol mewn ffordd arall: yn hytrach nag asesu perfformiad dros y flwyddyn gyfan (fel y byddwn yn parhau i wneud gyda Safonau eraill) byddwn yn asesu perfformiad yn erbyn Safon 3 o ran sefyllfa rheoleiddiwr ar ddiwedd pob cyfnod adolygu. Felly mae gan reolyddion o leiaf tan ddiwedd mis Mawrth 2024 hyd nes y cânt eu hasesu yn erbyn dangosyddion 2023/24. Rydym hefyd yn cydnabod, oherwydd bod amseriad y flwyddyn adolygu perfformiad yn amrywio rhwng rheolyddion, y bydd gan rai rheolyddion fwy o amser nag eraill cyn i ni asesu eu perfformiad. Byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth pan fyddwn yn asesu perfformiad yn erbyn y Safon hon fel nad yw rheolyddion o dan anfantais oherwydd eu safle yn ein cylch o adolygiadau yn unig. Gwyddom hefyd fod gan reolyddion gynlluniau busnes wedi’u gosod eisoes ar gyfer 2023/24 ac nid ydym yn disgwyl iddynt wneud newidiadau i waith arfaethedig yn y maes hwn.

Erbyn diwedd cyfnod adolygu 2025/26 byddwn yn disgwyl i reolyddion allu dangos effeithiau diriaethol mewn perthynas â nifer o ddangosyddion penodol. Yn fras, erbyn hynny byddem yn disgwyl gweld mwy o gynnydd ar ddangosyddion y mae rheolyddion yn fwy abl i ddylanwadu arnynt, nag yn erbyn y rhai y mae ffactorau allanol yn effeithio arnynt fwy.

Rydym yn deall nad yw rheolyddion yn gweithredu o fewn gwactod, a gall eu gallu i ysgogi newid gael ei gyfyngu gan ffactorau cymdeithasol a ffactorau allanol eraill; nid ydym yn disgwyl iddynt allu dileu pob rhagfarn ac annhegwch yn eu prosesau a’u penderfyniadau erbyn hynny. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o’r gwaith hwn yn gymhleth ac yn heriol, a bydd angen i reolyddion gymryd camau ymhell y tu hwnt i 2025/26. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei bod yn afresymol disgwyl i reolyddion ddangos cynnydd erbyn diwedd 2025/26, a byddem yn disgwyl i Gynghorau/Byrddau hefyd fod eisiau gweld canlyniadau o'r holl weithgarwch y gwyddom y mae rheolyddion yn ei gyflawni yn y maes hwn. Mae rhanddeiliaid allanol hefyd wedi ei gwneud yn glir i ni eu bod yn disgwyl dechrau gweld effaith y gwaith hwn yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Ein dull cyffredinol o asesu

Mewn agweddau eraill, bydd ein dull o asesu Safon 3 yn gyson â'r dull rydym eisoes yn ei ddefnyddio ar draws ein holl Safonau:

- Byddwn yn ystyried y dystiolaeth ar draws y Safon yn ei chyfanrwydd, ac mae tystiolaeth gyfyngedig o gynnydd yn erbyn un dangosydd yn gyffredinol yn annhebygol o arwain at reoleiddiwr yn methu â chyrraedd y Safon. Lle nad yw rheolyddion yn gallu bodloni dangosydd erbyn diwedd 2023/24, byddwn hefyd yn ystyried a oes ganddynt gynlluniau ar waith i'w bodloni yn ystod 2024/25. Byddwn yn trafod cynnydd a chynlluniau gyda rheolyddion fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus a byddem yn croesawu bod rheolyddion yn codi materion yn rhagweithiol gyda ni i'w trafod.
- Byddwn yn ystyried amgylchiadau penodol sy'n wynebu rheolyddion unigol, er enghraifft y rhai a achosir gan wahaniaethau mewn deddfwriaeth, maint neu ffynhonnell atgyfeiriadau. Rydym eisoes yn ystyried y mathau hyn o ffactorau yn ein hasesiadau, a byddwn yn parhau i gymhwyso'r dull hwn gyda Safon 3. Rydym yn annog rheolyddion unigol i drafod yr heriau hyn gyda ni fel ein bod yn cadw golwg gynhwysfawr ar yr amgylchiadau y maent yn gweithredu oddi mewn iddynt.

Gwyddom hefyd fod gan lawer o reolyddion waith wedi'i gynllunio sy'n mynd y tu hwnt i'r dangosyddion yr ydym wedi'u nodi yn y matrics. Rydym yn croesawu hyn ac yn annog rheolyddion i rannu'r hyn y maent yn ei ddysgu fel y gall eraill elwa. Ar ein rhan ni, byddwn yn ceisio nodi a rhannu arfer da wrth i ni gefnogi rheolyddion i wneud gwelliannau pellach yn y maes hwn.

Byddwn yn parhau i adolygu'r ddogfen hon, a byddem yn croesawu trafodaeth bellach gyda rheolyddion unigol ynghylch materion penodol.

## Atodiad Terminoleg

| Term / Dangosydd | Canlyniadau | Ystyr |
|---|---|---|
| Gofal priodol | 2 | Gofal sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn ac nad yw'n ei roi dan anfantais ar sail ei nodweddion gwarchodedig. Ni ddylai cleifion a defnyddwyr gwasanaeth wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at ofal sy'n diwallu eu hanghenion. |
| Cymuned | 1 | Mae pob rheoleiddiwr yn y sefyllfa orau i ddiffinio'r gymuned y dylent anelu at fod yn fwy cynrychioliadol ohoni. Efallai y bydd rheoleiddiwr yn teimlo ei bod yn briodol cymharu yn erbyn y gymuned o unigolion cofrestredig, y gymuned cleifion / defnyddwyr gwasanaeth, neu rywbeth arall yn dibynnu ar y sefyllfa a'r hyn y mae'r rheoleiddiwr yn ceisio ei gyflawni. Byddem yn disgwyl i reolyddion gael sail resymegol glir dros eu dewisiadau. |
| Cwynion | 3 a 4 | Mae'r dangosydd yng Nghanlyniad 3 yn mynd i'r afael ag achwynwyr sy'n mynegi pryderon Addasrwydd i Ymarfer. Dylid casglu cwynion sefydliadol/corfforaethol o dan y dangosydd yng Nghanlyniad 4. |
| Penderfynyddion | 1, 3 | Rydym yn canolbwyntio ar y rhai sy’n gwneud penderfyniadau sy’n ymwneud â swyddogaethau rheoleiddio – yn enwedig y rhai sy’n gwneud penderfyniadau mewn systemau addasrwydd i ymarfer. |
| Cyrhaeddiad gwahaniaethol | 4 | Bydd lleihau bylchau cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gwahanol yn cymryd amser, ac rydym yn cydnabod bod gan reolyddion lai o reolaeth uniongyrchol i ysgogi newid. Erbyn 2025/26 rydym yn disgwyl i reolyddion fod wedi gwneud cynnydd o ran datblygu a gweithredu eu cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw gyrhaeddiad gwahaniaethol annheg a nodwyd mewn hyfforddiant. |
| Data EDI | 1, 3, 4 | Fel sy’n digwydd ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod bod unigolion y gofynnir iddynt ddarparu data EDI yn gallu dewis ‘gwell gennyf beidio â dweud’ ac y dylai rheolyddion gynnwys hyn yn eu dadansoddiad. Fodd bynnag, os yw cyfran yr ymatebion ‘gwell gennyf beidio â dweud’ mor uchel nes ei bod yn anodd dehongli’r ymatebion o sylwedd, byddem yn annog rheolyddion i chwilio am ffyrdd o ddatrys y mater. Rheolyddion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a oes ganddynt ddigon o dystiolaeth (gan gynnwys data) i nodi materion a gwneud penderfyniadau gwybodus ar sut i fynd i'r afael â hwy. |

| Term / Dangosydd | Canlyniadau | Ystyr |
|---|---|---|
| Darparwyr addysg a darparwyr hyfforddiant | 2, 4 | Mae’r matrics bellach yn defnyddio’r term ‘darparwyr addysg a hyfforddiant’ er cysondeb. |
| Strwythur llywodraethu | 1 | Mater i reolyddion yw penderfynu ar y ffordd orau o ymgorffori EDI ar draws eu sefydliadau. Byddwn yn chwilio rhyw fath o strwythur yn ei le gan reolyddion i symud y gwaith hwn yn ei flaen, a fyddai fel arfer yn gysylltiedig â'u Cynllun/Strategaeth EDI ac yn cynnwys monitro ac adrodd rheolaidd. |
| Grwpiau arbennig | 1 | Rydym yn canolbwyntio yma ar grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion perthnasol. Mae hyn yn cyfeirio'n bennaf at nodweddion fel y'u nodir mewn deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r rheoleiddiwr. Fodd bynnag, gall rheolyddion benderfynu y gallai nodweddion eraill fod yn flaenoriaeth hefyd, megis cenedligrwydd neu statws economaidd-gymdeithasol. |
| Prosesau a phenderfyniadau | 3 | Mae’n debygol y byddwn yn canolbwyntio yma ar addasrwydd i ymarfer a swyddogaethau cofrestru’r rheolyddion. Fodd bynnag, efallai y bydd rheolyddion wedi nodi meysydd eraill y maent wedi gwneud gwaith ynddynt a all ddangos cydymffurfiaeth â'r dangosydd hwn. |
| Yn darparu ac yn hyrwyddo llwybrau i alluogi unigolion cofrestredig, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill i godi llais yn erbyn rhagfarn a gwahaniaethu | 4 | Mae hyn yn ymwneud â sut mae rheolyddion yn gwella eu prosesau eu hunain i alluogi pobl i godi llais yn erbyn rhagfarn a gwahaniaethu, boed ar eu rhan eu hunain, neu ar ran pobl eraill. |
| Nodweddion perthnasol | 1 | Mae hyn yn cyfeirio'n bennaf at nodweddion fel y'u nodir mewn deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r rheoleiddiwr. Rheolyddion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu, fodd bynnag, a allai nodweddion eraill fod yn flaenoriaeth hefyd, megis cenedligrwydd neu statws economaidd-gymdeithasol. |

**Rheoli fersiwn**

| Fersiwn | Disgrifiad o’r Fersiwn | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|
| 1.0 | Wedi ei chreu o’r newydd | Mai 2023 |
| | | |
| | | |